

Agor y Llyfr

Roedd criw Agor y Llyfr yn Ysgol Gwaun Gynfi fore Gwener diwethaf yn cyflwyno stori Moses a'r Israeliaid yn crwydro'r anialwch am ddeugain mlynedd cyn mynd i mewn i Wlad yr Addewid. Diolch yn fawr am waith cale a ffyddlondeb y tim bychan. Cofiwch yu byddem wrth ein bodd yn cael rhagor ohonoch i ymuno â ni yn y gwaith hwn.

'Y Ffordd'

Cynhaliwyd ail gyfarfod 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fercher, Chwefror 15. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Mawrth 15.

Yr Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Horeb, Rhostryfan am 1.30 o'r gloch, ddydd Mawrth, Chwefror 28. Yn ystod y cyfarfod byddaf yn cyflwyno teyrnged i'r ddiweddar Mrs Margaret Cynfi Griffith ar ran eglwys Cefnywaun.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 26: Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Sul, Chwefror 26: Cynhelir yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 26: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Mawrth, Chwefror 21: 'Clwb Golau' - clwb gwyliau i blant - rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch, yn y Festri.

Dydd Iau, Chwefror 23: 'Bwrlwm' am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 26: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Chwefror 20: Y Clwb Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 17: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 26: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Chwefror 20: Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi.

Nos Fawrth, Chwefror 28: Cyfarfod Ffarwelio ag Andrew yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 19

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams

DIM YSGOL SUL

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Chwefror 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mawrth 5

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 26

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Mawrth 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog



Llun: BBC

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 717: Dydd Sul, 19 Chwefror, 2017

Ein heddiw ni

daith trwy wyllo'r delweddau rhithiol sy'n darlunio'r lôn arfaethedig ac yn dod â'r hen reilffordd yn fyw i'r cof. Chwiliwch amdanynt ar *YouTube*.

Ond er difyrred y teithio, nôl i heddiw fu raid dod. Ac yn union felly hefyd, yn yr heddiw hwn yr ydym i fyw fel Cristnogion, er y duedd i geisio ddoe ein hiraeth ac yfory ein breuddwydion. Heddiw yr ydym i wasanaethu ac i ddwyn ein tystiolaeth i Iesu Grist.

Nôl hefyd o wyllo'r ffordd a'r trên o bell i fod yn Gristnogion sy'n byw yng nghanol y byd a'i bethau. A'r byd hwnnw nid yn fyd rhithiol na delfrydol lle mae popeth yn rhwydd a hardd, ond yn fyd go iawn, llawn o broblemau ac anawsterau yn ogystal â bendithion a chysuron.

Ac mor dda yw cofio mai i'r byd go iawn hwn, ac i'w heddiw ef ei hun y daeth Iesu Grist. Fe'i ganed un waith, i fyw yn heddiw ei ddydd, yn y byd real a oedd, bryd hynny fel erioed, yn llawn o ofid a gwae, dioddefaint a phechod, dagrau a chwerthin, gobaita llawenydd. Fe ddaeth Iesu Grist nid i ymylon ein byd, i edrych arno o bell neu i wibio heibio iddo'n ddirado, ond i'w ganol. Fe ddaeth i'n byd; fe ddaeth atom; fe ddaeth yn un ohonom. Mae'n deall yr hyn a brofw'n ni am iddo fod trwy'r un profiadau ac am iddo wynebu'r un temtasiynau. Yn ei nerth ef, a chyda'i gymorth ef y medrwn ninnau hefyd fyw'r bywyd Cristnogol yn ein byd a'n heddiw ni.

Nid yw pawb yn gwirioni'r un fath. Mae rhai wrth eu bodd efo ffilmiau a rhaglenni ffuglen wyddonol. Dydw i ddim. Dwi'n cael dim blas ar *Star Wars* na *Star Trek* na'r un ffilm *sci-fi* arall. Ac felly bydd yn anodd gennych gredu i mi ar un adeg fod yn wylwr brwd o *Doctor Who*. Ond roedd hynny nôl yn nyddiau William Hartnell, y 'Doctor' gwreiddiol. Bellach, mae'r deuddegfed 'Doctor', Peter Capaldi, wedi cyhoeddi y bydd yn gadael y gyfres ddiwedd y flwyddyn. Bydd ar y BBC angen 'Doctor' newydd. Ac er i *Doctor Who* a minnau fynd yn ddiethr i'n gilydd ers blynnyddoedd, mae gen i flys cynnig am y swydd wedi i mi fwynhau dwy siwrnai arbennig y dydd o'r blaen. Roedd y naill daith i'r gorffennol a'r llall i'r dyfodol; yn union fel teithiau'r 'Doctor'. Dwi wedi sylweddoli bod 'teithio trwy amser' yn ddigon difyr!

Taith i'r dyfodol oedd y gyntaf, ar hyd Ffordd Osgoi'r Bontnewydd. Mae'r lôn newydd yn werth ei gweld, o gylchfan y 'Goat' yn Llanwnda, draw at Waith Brics Caernarfon, heibio i Glan Gwna a throsodd i gylchfan Plas Menai a Ffordd Osgoi'r Felinheli. Roedd y traffig trwm yn llifo'n rhwydd arni. Taith i'r gorffennol oedd yr ail, ar y trên o Gaernarfon i Lanberis. Ac yn rhyfedd iawn, mewn un man, rywle rhwng y Gwaith Brics a Ffatri Peblig, roedd y ddwy daith fwy neu lai'n dilyn yr un llwybr. Mae'r gwaith ar y ffordd osgoi heb ei gychwyn; mae'r cledrau wedi eu codi ers talwm; ond mi ellwch chithau os mynnwch wneud y ddwy

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Rhowch i Dduw offrymau diolch, a thalwech eich addunedau i'r Goruchaf. Os gelwi arnaf yn nydd cyfyngder fe'th waredaf, a byddi'n fy anrhydeddu' (Salm 50:14-15).



BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn y ddwy oedfa yn Capel Coch, am 10.00 a 5.00 o'r gloch, gan y Parchg Cath Williams. Nid oes Ysgol Sul heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

CIC olaf Andrew

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener diwethaf yng ngofal Andrew a Gwenno a Dafydd. Hwn oedd CIC olaf Andrew gyda ni, ac felly braf iawn oedd gweld cymaint o'r bobl ifanc wedi dod yno. Gan ei bod yn noson arbennig roeddem wedi trefnu parti bach, heb yn wybod i Andrew. Diolch yn fawr iawn i Catrin ac Adrian Roberts, a Nia a Trystan Thomas am goginio'r pitsas, ac i Aled a Nia Williams am eu cefnogaeth hwythau. Diflannodd y bwyd – y pitsas a'r creision a'r cacennau – yn sydyn iawn. Cafwyd noson gemau a chwis, a daeth y noson i ben efo cwis arbennig am Andrew ei hun er mwyn gweld pwy oedd yn ei nabod orau ar derfyn y cyfnod o wyth mlynedd

Tysteb Andrew

Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu at Dysteb i Andrew Settatee i ddiolch iddo am y gwasanaeth arbennig a gafwyd ganddo yn Capel Coch fel rhan o'i waith gyda Chynllun Efe, a wnewch chi anfon eich rhodd i'r Gweinidog neu i Colin Jones, Trysorydd Capel Coch erbyn nos Sul nesaf, **Chwefror 26 os gwelwch yn dda.**

a hanner ers iddo ddod atom. Y ddau a enillodd oedd Iolo ac Aled. Dwi ddim yn siwr a lwyddodd Andrew ei hun i ateb pob un o'r 20 cwestiwn yn gywir!

Roedd yn gyfle da i griw CIC ddweud diolch i Andrew am ei garedigrwydd a'i gyfeillgarwch a'i gefnogaeth. Diolchwn ninnau am ei genhadaeth.

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 3. Edrychwn ymlaen at weld y criw yn ôl y noson honno.

Cyfarfod Ffarwelio ag Andrew

Noson olaf mis bach, nos Fawrth, Chwefror 28 bydd Cynllun Efe yn cynnal Cyfarfod i Ffarwelio ag Andrew Settatee cyn iddo symud i'w swydd newydd yn ardal Pwllheli a Phen Llŷn y diwrnod canlynol.

Cynhelir y cyfarfod yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, ac mae croeso

i bawb i ddod yno i ddangos ein gwerthfawrogiad i Andrew am yr holl waith dros yr wyth mlynedd ddiwethaf.

Gŵyl Ddewi

Fore Sul nesaf, Chwefror 26, cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yng Nghapel Carmel, Llanllechid yng ngofal y plant a'r ieuenctid. Mae croeso i chi ymuno â nhw i gofio a dathlu Dewi a'i waith a'i arwyddocad i ni sy'n arddel yr un Ffydd â'r gŵr hwn o'r Chweched Ganrif. Bydd croeso i chi hefyd i fwynhau paned a chacen yn y festri ar ôl yr oedfa.

'Clwb Golau'

Cyfarfod 'Clwb Golau' - Clwb Gwyliau i blant – yn festri Bethlhem, Talybont rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Chwefror 21. Trefnir y cyfan gan Jennifer Roberts, sy'n gweithio fel Galluogydd Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd gydag Esgobaeth Bangor yr Eglwys yng Nghymru.

Pantycelyn

Yn briodol ddigon, mae papurau enwadol *Y Tyst* a'r *Goleud* yn rhoi cryn sylw ar hyn o bryd i ddathliadau tri chan mlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd, William Williams, Pantycelyn. Wedi gweld ei lun ar dudalen flaen *Y Tyst*, aeth Martha Glain, un o aelodau ifanc Dwylo Prysus yng Nghapel Carmel, ati i wneud ei llun ei hun o'r emynydd. Yn ystod yr oedfa nos Sul diwethaf, dangoswyd y llun i'r gynulleidfa, a darllenwyd dau o emynau Pantycelyn gan y ddau fenga yn yr oedfaon ar nos Sul, Owain a Dai.



Anfonwyd y llun hwn o Owain a Dai yn dal y llun yng nghwmni'r Parchg John Lewis Jones, a oedd yn pregethu yng Ngharmel nos Sul, i'r *Tyst*, gan obeithio y caiff ei gyhoeddi yn fuan.